



CYNLLUN PRESWYLIO’N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE (EU SETTLEMENT SCHEME) GWYBODAETH BWYSIG



Os ydych chi'n ddinesydd yr UE¹, gallwch chi ac aelodau eich teulu ymgeisio i **Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme)** i barhau i fyw yn y Deyrnas Unedig.

Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme), yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i **[gov.uk/eu-settled-status](https://www.gov.uk/eu-settled-status)**

archived



This document was archived on 20 January 2021

Beth yw'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme)?

Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) yn eich galluogi chi ac aelodau'ch teulu i gael y statws mewnfudo fyddwch chi angen i barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y Deyrnas Unedig. Golyga'r statws hwn y gallwch barhau i fod yn gymwys ar gyfer:

- gwasanaethau cyhoeddus, fel gofal iechyd ac ysgolion
- cronfeydd cyhoeddus a phensiynau
- dinasyddiaeth Brydeinig, os ydych chi'n bodloni'r gofynion ac eisiau ymgeisio.



Pwy sy'n gymwys?

Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme)

yn berthnasol i ddinasyddion yr AEE a'r Swistir:

Awstria	Gwlad Groeg	Norwy
Gwlad Belg	Hwngari	Gwlad Pwyl
Bwlgaria	Gwlad yr Iâ	Portiwgal
Croatia	Iwerddon ²	Rwmania
Gweriniaeth Cyprus	Yr Eidal	Slofacia
Y Weriniaeth Tsiec	Latfia	Slofenia
Denmarc	Liechtenstein	Sbaen
Estonia	Lithwania	Sweden
Y Ffindir	Lwcsembwrg	Y Swistir
Ffrainc	Malta	
Yr Almaen	Yr Iseldiroedd	



Os oes gennych chi **ddogfen breswyllo barhaol (permanent residence)** y Deyrnas Unedig, byddwch yn dal angen ymgeisio i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme). Nid oes angen i chi ymgeisio os oes gennych **ganiatâd amhenodol i aros neu fynediad (indefinite leave to remain or enter)**, ond fe allwch os ydych chi eisiau. Ewch i **GOV.UK** i gael gwybod mwy am eich hawliau parthed y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).

- 1 Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at ddinasyddion yr AEE a'r Swistir, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
- 2 Nid oes rhaid i ddinasyddion Gwyddelig ymgeisio, er y gallant wneud hynny os dymunant. Bydd angen i aelodau teuluoedd nad ydynt yn Wyddelig ac nad ydynt yn Brydeinig i ddinasyddion Iwerddon ymgeisio i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE os ydynt eisiau aros yn y Deyrnas Unedig wedi 31 Rhagfyr 2020.

This document was archived on 20 January 2021

Aelodau o deuluoedd dinasyddion cymwys yr UE



Mae aelodau'r teulu nad ydynt o'r UE yn byw yn y Deyrnas Unedig erbyn **31 Rhagfyr 2020**³ yn gymwys i ymgeisio i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme). Bydd aelodau agos y teulu nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig erbyn **31 Rhagfyr 2020**⁴ yn gallu ymuno â'u haelod o'r teulu o'r Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig **ar unrhyw adeg yn y dyfodol**⁵, cyn belled â bod y berthynas dal yn bodoli.



Mae aelodau agos o'r teulu yn cynnwys priod, partneriaid sifil, partneriaid dibriad a phlant dibynnol, wyrion, rheini a neiniau a theidiau. Nid oes angen i aelodau'r teulu fod o'r UE, gallant ddod o unrhyw le yn y byd (a elwir yn aelod o'r teulu nad yw o'r UE).



Sut i ymgeisio?

Rydych angen llenwi **ffurflen gais fer ar-lein** yn defnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Bydd y cais yn gofyn am wybodaeth ffeithiol sylfaenol fel eich enw, cyfeiriad, manylion cyswllt a chenedligrwydd. Mae eich cais yn cael ei gadw'n awtomatig, felly os ydych chi eisiau, gallwch gychwyn ac yna'i gwblhau eto. Mae **am ddim i ymgeisio** i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).



Gellir dod o hyd i ganllaw ar ymgeisio ar **GOV.UK**. Wedi i chi ddarllen y canllaw, dechreuwch eich cais ar **gov.uk/apply-eu-settled-status**.

3 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.

4 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.

5 Neu tan 29 Mawrth 2022, os na fydd cytundeb.



Prawf hunaniaeth

Dilysu **eich hunaniaeth** a chenedligrwydd yn defnyddio eich pasbort, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn preswyllo biometrig (os nad ydych chi'n ddinesydd yr UE). Gallwch naill ai sganio eich dogfen hunaniaeth yn defnyddio dyfais Android, anfon eich dogfen hunaniaeth trwy'r post neu ymweld â lleoliad sy'n darparu mynediad i'r gwasanaeth sganio dogfennau hunaniaeth. Ceir rhestr o leoliadau ar gov.uk/eu-id-scanner-locations. Bydd hefyd angen i chi uwchlwytho llun digidol ohonoch chi'ch hun.



Prawf preswyllo

Profwch **eich bod yn preswyllo** yn y Deyrnas Unedig trwy ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych chi un. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennaeth atodol. Gallwch uwchlwytho'r rhain i'ch cais.



Gwiriad troseddoldeb

Cwblhewch y **gwiriad troseddoldeb** trwy ddatgan unrhyw gollfarnau troseddol. Dim ond troseddoldeb difrifol neu barhaus fydd yn effeithio ar eich cais.



Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael **prawf digidol** o'u statws trwy wasanaeth ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich statws mewnfudo newydd yn cael ei roi o fewn ychydig wythnosau. Gallwch olrhain cynnydd eich cais ar-lein. Wedi i chi dderbyn eich statws, fe ddarperir manylion ar sut i gael mynediad ato ar [GOV.UK](https://gov.uk). Ni fyddwch yn cael dogfen gorfforol oni bai eich bod o'r tu allan i'r UE ac nad oes gennych chi gerdyn preswyllo biometrig.

This document was archived on 20 January 2021

Statws preswlydd cyn-sefydlog

Os byddwch yn derbyn **statws preswlydd cyn-sefydlog**, a elwir hefyd yn ganiatâd penodol i aros neu fynediad, mae hyn yn golygu y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn caniatáu i chi aros yn y Deyrnas Unedig nes eich bod yn gymwys am statws preswlydd sefydlog, yn gyffredinol wedi i chi fyw'n barhaus yn y Deyrnas Unedig am bum mlynedd.

Statws wedi setlo

Os byddwch yn derbyn **statws preswlydd sefydlog**, mae hyn yn golygu nad oes terfyn amser ar ba mor hir y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig. Gallwch fynd ymlaen i ymgeisio am ddinasyddiaeth Brydeinig os ydych chi'n bodloni'r gofynion ac eisiau ymgeisio.



Pryd alla i ymgeisio?

Mae'r Cynllun Preswlyio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) ar agor ac mae gennych tan **30 Mehefin 2021**⁶ i ymgeisio. Ni fydd eich hawliau yn newid tan hynny, ar yr amod eich bod yn preswlyio yn y Deyrnas Unedig erbyn **31 Rhagfyr 2020**⁷.

6 Neu 31 Rhagfyr 2020, os na fydd cytundeb.

7 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.



Ble allaf i gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i'r wefan gov.uk/eu-settled-status i:

- gael mynediad i'r canllaw ymgeisio
- gychwyn eich cais
- ddarllen am y camau nesaf a dinasyddiaeth



Cefnogaeth

Os oes gennych chi gwestiynau unigol am eich cais, gallwch gysylltu â Chanolfan Datrys Problemau y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) trwy ffonio **0300 123 7379** neu +44 (0) 20 3080 0010 o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Dysgwch am daliadau ar gyfer galwadau ar gov.uk/call-charges.

Gallwch hefyd ofyn cwestiwn yn defnyddio'r ffurflen gyflwyno ar-lein eu-settled-status-enquiries.service.gov.uk.



Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme), yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i gov.uk/eu-settled-status.

archived

This document was archived on 20 January 2021

archived

Am ragor o wybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i gov.uk/eu-settled-status